



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI364

Amseru: Unigol

Teitl: Cyllid Rhaglen CARA

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:

Yn unol ag adroddiad a gymeradwywyd gan Grŵp Prif Swyddogion Dyfed-Powys ar 17 Mawrth 2025, bydd yr Heddlu'n gweithredu'r rhaglen CARA (Rhybuddio a Cham-drin mewn Perthynas). Mae CARA yn gorwedd o fewn y system cyfiawnder troseddol fel ymyrraeth codi ymwybyddiaeth gynnar newid ymddygiad sy'n targedu troseddwr cam-drin domestig honedig perygl is/safonol sydd wedi derbyn rhybudd amodol ar ôl troseddu am y tro cyntaf.

Cyflwynir y rhaglen CARA gan Threshold DAS fel rhan o'r rhaglenni Troseddwr Cam-drin Domestig rhanbarthol ar draws ardal Dyfed-Powys, sydd wedi'u comisiynu gan SCHTh fel daliwr cytundeb ar ran y bartneriaeth ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Bartneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gyfrifol am reoli cytundeb a pherfformiad y gwasanaeth. Bydd Threshold hefyd yn ymgymryd ag elfen cyswllt dioddefwyr CARA, yn unol â'r penderfyniad a nodwyd gan y Grŵp Prif Swyddogion. Bydd pob cyfeiriad at CARA drwy rybudd amodol yn mynd drwy'r cynllun dargyfeirio troseddwr a bydd brysbennu cychwynnol yn cael ei gynnal gan y grŵp POBL, a fydd yn darparu cymorth cofleidiol ac yn cyfeirio ymlaen at ddarparwyr arbenigol, fel y nodir gan asesiad o anghenion troseddegol, gan gynnwys cyfeiriad at Threshold DAS ar gyfer darpariaeth CARA.

Lluniwyd y prosiect CARA gan Ymddiriedolaeth Hampton, sydd wedi'i hawdurdodi fel llwybr a gymeradwyir gan y Swyddfa Gartref. Yn ystod y broses gomisiynu, ceisiwyd cyngor cyfreithiol a bennodd y bydd Threshold DAS yn is-gontractio gydag Ymddiriedolaeth Hampton ar gyfer darparu a thrwyddedu'r rhaglen CARA.

Bydd CARA yn mynd yn fyw ar 1 Ebrill 2025, ac yn unol ag ymchwil ar draws ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr, mae SCHTh wedi cytuno i ariannu'r ffi fyddino ynghyd â chostau cyflenwi ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd angen i'r cyllid ar gyfer cyflwyno CARA wedi hynny fod drwy'r bartneriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn unol â'r model dosrannu cyllid a ddefnyddir ar gyfer pob ymyriad troseddwr.

Mae'r cyllid ar gyfer CARA fel a ganlyn:-

- Wedi'i amcangyfrif adeg y cytundeb, mae'n dibynnu ar y nifer yn y garfan drwy oes y cytundeb.
- Costau byddino ymlaen llaw sy'n dod i gyfanswm o: **£33,760** yn seiliedig ar hyfforddiant craidd ynghyd â charfannau amgen: cydnabod gwrywaidd/benywaidd; gwryw/benyw nad yw'n gydnabod; hyfforddiant cyswllt dioddefwyr ac ymyrraeth dros y ffôn. *Noder fod y gost hon ar gyfer hyd at 12 o hwyluswyr. Os oes llai o hwyluswyr yn cael eu hyfforddi, bydd Ymddiriedolaeth Hampton yn anfonebu Threshold a bydd Threshold yn anfonebu SCHTh HDP ar gyfer costau gwirioneddol yr hyfforddiant a gyflenwir.
- Cyflenwi parhaus – amcangyfrif o **£60,000** (Hyd at 200 o droseddwr mewn carfanau o 10 am £2,500 fesul carfan ynghyd â £500 ar gyfer cyswllt dioddefwyr). Mae hyn yn cynnwys y ffi trwyddedu o £9,000 ar gyfer Ymddiriedolaeth Hampton.

Argymhelliad:

Bod CHTh yn cymeradwyo'r costau byddino ymlaen llaw o hyd at £33,760 a'r costau cyflenwi o hyd at £60,000 ar gyfer gweithredu'r rhaglen CARA. Darparwyr i anfonebu ar gostau gwirioneddol yn unig. Y blynyddoedd nesaf i'w rhannu ar draws partneriaid Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r model dosrannu rhanbarthol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:**Dyddiad: 20/03/2025**